

## 2017 Rhif 86 (Cy. 31)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 20 mya) 2017

*Gwnaed* 31 Ionawr 2017

*Yn dod i rym* 6 Chwefror 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) a'r darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) (“y cefnffyrdd”), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 20 mya) 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

---

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Trosedd a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lloedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### **Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### **Cymhwyso**

**5.** Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

31 Ionawr 2017

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Terfyn cyflymder 20 mya Llawnamser**

Y darn o gefnffordd yr A487 yn Abergwaun, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Clive Road hyd at bwynt 70 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Tower Hill, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Sgwâr Abergwaun.

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Abergwaun, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 180 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

### **ATODLEN 2**

#### **Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser**

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw y Byrgam, Abergwaun, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Dewi hyd at bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Clive Road.